Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Meinir Ebbsworth
Swyddog Arweiniol Corfforaethol : Ysgolion
Corporate Lead Officer : Schools
Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn,
Llanbadarn Fawr, Aberystwyth. SY23 3UE
www.ceredigion.gov.uk

Annwyl Randdeiliad / Ymatebydd

Dyddiad / Date: 19/12/2019
Gofynnwch am / Please ask for: Nia James
Llinell uniongyrchol / Direct line: 01970 633364
Fy nghyf / My ref:
Eich cyf / Your ref:
Ebost / Email: Adolygu.ysgolion@ceredigion.gov.uk

Annwyl Randdeiliad/Ymatebydd

**Y cynnig i gau Ysgol Ciliau Parc, Ysgol Dihewyd ac Ysgol Felinfach ac adeiladu ysgol ardal newydd ar safle newydd yn Nyffryn Aeron**

Ar ddydd Iau, 19 Rhagfyr 2019, cymeradwyodd Cyngor Sir Ceredigion y cynnig i gau Ysgolion Cynradd Cymunedol Ciliau Parc, Dihewyd a Felinfach o'r 31 Awst 2022.

Ystyriodd y Cyngor y cynnig, y gwrthwynebiadau statudol a gyflwynwyd ac ymateb yr awdurdod lleol yn unol â gofynion Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018 a Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Wrth benderfynu ar y cynnig, roedd y Cyngor yn fodlon y bydd y cynnig yn:

- Arwain at fwy o effeithiolrwydd wrth ariannu addysg yn yr ardal yn ogystal ag ar draws ystad yr ysgol;
- Cynnal safon y ddarpariaeth addysgol yn yr ardal yn gyffredinol, gan sicrhau y cyflwynir cwricwlwm eang a chytbwys.

Gweler isod y ddolen i'w dilyn ar gyfer dogfennau ymgynghori yn ymwneud â'r cynnig:

http://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/ysgolion-ac-addysg/cynllunior-ddarpariaeth-addysg/

Wrth benderfynu ar y cynnig, rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i'r ffactorau canlynol fel y'u hamlinellir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018:

**Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion**

Bydd disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau sydd â llai o ystod oedran. Rhagwelir y bydd 210 o leoedd i ddisgyblion gyda 60 o leoedd meithrin ychwanegol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Cewch ateb Cymraeg i bob gohebiaeth Gymraeg ac ateb Saesneg i bob gohebiaeth Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.
We welcome correspondence in Welsh and English. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and correspondence in English will be answered in English. Corresponding in Welsh will not involve any delay.

Prif Weithredwr / Chief Executive : Eifion Evans
Cyfarwyddwyr Corfforaethol / Corporate Directors : Sue Darnbrook
Barry Rees

**Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol**

Y gost gyfartalog fesul disgybl yng Ngheredigion yw £3,761, a rhagwelir mai £3,298 fydd y gost fesul disgybl yn yr ysgol ardal newydd.

Rhagwelir mai £66,609 fydd yr arbedion refeniw a fydd yn deillio o'r cynnig.

**Ansawdd a safonau mewn addysg**

Roedd Estyn o'r farn bod y cynnig yn debygol o gynnal neu wella'r safonau presennol o ran addysg, darpariaeth, arweinyddiaeth a rheolaeth i blant yn yr ardal.

**Gwrthwynebiadau i'r cynnig**

Derbyniwyd 11 gwrthwynebiad.


**Atgyfeirio penderfyniadau'r awdurdod lleol i Weinidogion Cymru**

Pan fo cynigion wedi eu cymeradwyo gan awdurdod lleol, yna o dan Adran 54 o Ddeddf 2013, caiff y cyrff canlynol atgyfeirio'r cynnig i Weinidogion Cymru, cyn diwedd 28 o ddiwrnodau gan ddechrau ar ddiwrnod penderfynu'r awdurdod lleol:

- Awdurdod lleol arall y mae'n debyg y bydd y cynnig yn effeithio arno;
- Y corff crefyddol priodol;
- Corff llywodraethol ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig;
- Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo at ddibenion ysgol wirfoddol neu ysgol sefydledig;
- Sefydliad o fewn y sector addysg bellach y mae'n debyg y bydd y cynnig yn effeithio arno.

Bydd angen i'r cyrff sy'n atgyfeirio amlinellu pam y credant fod y penderfyniad a wnaethpwyd gan yr awdurdod lleol yn anghywir.

Yr eiddoch yn gywir,



Meinir Ebbsworth
Prif Swyddog Addysg